

Amrywiaeth o winwydd i'w gweld / A variety of vines to see

# GWINLLAN A PHERLLAN

Sefydlwyd Gwinllan a Pherllan Pant Du yn ôl yn 2007.

Erbyn heddiw mae bron i 8,000 o winwydd, sy'n cynnwys 7 math gwahanol, ar 7.5 acer o dir y fferm. Mae llethrau'r winllan yn wynebu'r de, ac yng ngolwg yr haul drwy'r dydd.

Mae 2,900 o goed afalau ar 18 acer o dir y fferm, 2,000 ohonynt yn goed afalau seidr traddodiadol a'r gweddill yn goed afalau Cymreig cynhenid.

# VINEYARD & ORCHARD

Pant Du Vineyard and Orchard was planted back in 2007.

Today there are nearly 8,000 vines, comprising of 7 different varieties, planted on 7.5 acres of the farmland. The south facing slopes of the vineyard are in view of the sun all day.

2,900 apple trees have been planted on 18 acres of Pant Du, of which 2,000 are traditional cider apple trees and the rest are Welsh native varieties.



Awyrgylch lle gallwch ymlacio / A place where you can relax

# SUT I'N CYRRAEDD NI

Rydym oddi ar ffordd yr A487 rhwng Caernarfon a Phorthmadog, ym mhentref Penygroes.

Dilynnwch yr arwyddion brown twristiaeth am Bant Du.

# HOW TO FIND US

We are situated off the A487 between Caernarfon and Porthmadog, in the village of Penygroes.

Follow the brown tourist signs for Pant Du.


**Gwinllan Pant Du Vineyard**
Penygroes
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6HE

(01286) 881819 / 880806
post@pantdu.co.uk
**www.pantdu.co.uk**


GWINLLAN **PANT DU** VINEYARD

pd
PANT DU



w w w . p a n t d u . c o . u k

# CROESO

Mae gwinllan a pherllan deuluol Pant Du mewn lleoliad godidog ar lethrau Dyffryn Nantlle, yng ngolwg yr Wyddfa, mynyddoedd yr Eifl a glannau Bae Caernarfon.

Cewch groeso cynnes Cymreig yn y caffi, a mwynhau pryd ysgafn neu baned â theisen gartref yn nhawelwch y winllan wrth edmygu'r golygfeydd o'ch cwmpas. Cewch gyfle hefyd i brynu ein cynnyrch, yn winoedd, seidr, sudd afal a dŵr ffynnon.


Gallwch ymweld â Phant Du yn rhad ac am ddim a mwynhau gweld y llethrau gwyrddion o winwydd yn un o ddyffrynnoedd harddaf Cymru.

# WELCOME

Pant Du vineyard and orchard is a family-run business set in a panoramic location on the south facing slopes of Dyffryn Nantlle, with breath-taking views of Snowdon, the Rivals and Caernarfon Bay.

You'll receive a warm Welsh welcome in the café; enjoy a light meal or some home baking, while taking in the spectacular views in the tranquility of the vineyard. Our wine, cider, apple juice and spring water are available for purchase.

Admission to Pant Du is free. Come and view our vines and orchard for yourself in this scenic part of beautiful north Wales.



# AR GYFER POB ACHLYSUR

**TEITHIAU TYWYS**
Beth am drefnu i griw ohonoch ymweld â Phant Du a chael taith dywys? Arweinir chi o amgylch y winllan a'r berllan. Yn ystod y daith cewch drafod a dysgu am ei hanes, a dod i wybod pa fathau o winwydd a choed afalau sydd wedi eu plannu, a pham y dewiswyd hwy. Yna ymlaen i'r caffi/siop i gael cyflwyniad a phryd o fwyd i orffen.

**NOSON BLASU GWIN**
Dewch â ffrindiau at ei gilydd a mwynhau un o nosweithiau mwyaf poblogaidd Pant Du - noson hwyliog o flasu gwahanol winoedd ardderchog o wledydd ledled y byd. Cyfle i ddysgu a mwynhau yr un pryd!

**PARTÏON PREIFAT**
Pen-blwydd, Parti, Dathliad, Parti Plu, Aduniad... Beth bynnag yw'r achlysur gall Pant Du fod y lleoliad perffaith. Cysylltwch am fwy o wybodaeth.



Golygfeydd gwych o'r ardal / Breathtaking views of the area

# FOR EVERY OCCASION

**GUIDED TOURS**
Why not organise a group visit to Pant Du and take a guided tour? The tour takes you to the vineyard and orchard, where you'll learn about the history and the different varieties of vines and apple trees planted. From there you'll be taken into the café/shop to view an illustrated presentation and a meal to finish.

**WINE TASTING EVENING**
Bring your friends together to enjoy one of Pant Du's most popular evenings - a wine tasting evening; you'll be guided through an excellent selection of wines from all over the world. A chance to learn and enjoy at the same time!


**PRIVATE PARTIES**
Birthday, Party, Celebration, Hen Party, Reunion... Whatever the occasion Pant Du may be the perfect location. Contact for more information.



Prydau ysgafn ar gael yn ein caffi / Light meals available at our café



Teithiau Tywys gyda'r pechennog / Guided Tours with the owner



# CAFFI A SIOP

**ORIAU AGOR**
1af Ebrill – 31ain Hydref: 10.30 – 16.30
Rhagfyr: Sadwrn a Sul yn unig
Partïon preifat a sesiynau blasu gwin ar gael drwy'r flwyddyn

Prydau ysgafn, teisenni cartref ac amrywiaeth o ddiodydd ar gael trwy'r dydd yng ngaffi croesawgar Pant Du. Beth am ymlacio gyda gwydraid o seidr neu win Pant Du yn llonyddwch y winllan, neu gymdeithasu gyda ffrindiau a theulu wrth fwynhau'r golygfeydd.

Mae siop fechan ar y safle yn gwerthu cynnyrch Pant Du - Gwin, Seidr, Sudd Afal a Dŵr Ffynnon – yn ogystal â gwinoedd safonol o winllannoedd teuluol bychain eraill o bob cwr o'r byd.

# CAFÉ & SHOP

**OPENING TIMES**
1st April – 31st October: 10.30 – 16.30
December: Saturday and Sunday only
Private functions & wine tastings available throughout the year

Light meals, homemade cakes and a variety of drinks are available throughout the day at Pant Du's welcoming café. Why not relax in the vineyard with a glass of our very own Pant Du cider or wine, or unwind and enjoy the views in the company of your friends and family.

A small on-site shop sells Pant Du produce - Wine, Cider, Apple Juice and Spring Water – as well as a selection of high quality wines from similar family-run vineyards from all over the world.

# EIN CYNNYRCH



**GWIN**
Ers cynhyrchu'r botel gyntaf o win yn 2010, mae'r cwmni wedi sefydlu enw da iddynt eu hunain yn cynhyrchu gwinoedd safonol ac wedi ennill amrywiol wobrau am eu gwin.

**SEIDR**
Mae Pant Du yn cynhyrchu 4 math o seidr crefftwr, a wnaed yn naturiol o gymysgedd o afalau seidr traddodiadol a mathau Cymreig brodorol prin.



**SUDD AFAL**
Mae Pant Du yn cynhyrchu sudd afal llonydd a phefriog o gymysgedd o afalau sydd yn tyfu ym Mhant Du.

**DŴR FFYNNON**
Dŵr ffynnon o ddyffryn rhewlifol Dyffryn Nantlle wrth droed yr Wyddfa. Mae'r dŵr yn cael ei hidlo yn naturiol wrth iddo deithio drwy'r creigiau Cyn-Gambriaidd.

# OUR PRODUCE



**WINE**
Since producing the first bottle of wine in 2010 the company has established a reputable name for themselves in wine producing, and has won various awards for their wines.

**CIDER**
Pant Du produce 4 types of craft cider, naturally made from traditional cider apples mixed with rare native Welsh apple varieties



**APPLE JUICE**
Pant Du produce two types of apple juice, still and sparkling, from the apples grown at the orchard.

**SPRING WATER**
Sourced from the glacial valley of Dyffryn Nantlle at the foothills of Snowdon, the water is filtered naturally due to its journey through the Pre-Cambrian rocks.